## Prynhawn Goffi Macmillan



Hoffwn ddiolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Ysgol, i Ffrindiau Pwll Coch ac i holl gymuned yr ysgol am gefnogi ein prynhawn goffi wythnos diwethaf. Mae'r Cyngor Ysgol yn falch iawn i gyhoeddi eu bod wedi codi £405.60 ar gyfer elusen Macmillan!

## Macmillan Coffee Afternoon

I would like to thank our School Council, Ffrindiau Pwll Coch (PTA) and all the school community for supporting our coffee afternoon last week. The School Council members are very proud to announce that they have raised £405.60 for the Macmillan charity!

MACMILLAN CANCER SUPPORT

## Twrnamaint Pêl-droed cymysg Yr Urdd



Hoffwn longyfarch timau pêl-droed cymysg Blynyddoedd 5&6 am gystadlu'n wych yn nhwrnamaint Yr Urdd ar ddydd Mawrth. Da iawn i bob un am gynrychioli'r ysgol yn wych.

## Urdd mixed football tournament

I would like to congratulate our Year 5&6 mixed football teams for competing brilliantly at the Urdd tournament on Tuesday. Well done to everyone for representing the school brilliantly.

## Gweithdy Dŵr Cymru

Diolch yn fawr i Mia o Dŵr Cymru am gynnal gweithdai gyda'n disgyblion Blynyddoedd 3&4 fel rhan o'u prosiect wyddoniaeth. Am brofiad arbennig iddynt!

## Dŵr Cymru Workshop

Many thanks to Mia from Dŵr Cymru for delivering workshops with our Year 3&4 pupils as part of their science project. What a fantastic experience for them!







## Diolch i Admiral Money!



Diolch yn fawr i'r tîm o Admiral Money, o dan arweiniad un o rieni'r ysgol, am beintio ystafell ddosbarth Pwyll wythnos diwethaf. Rydyn ni'n ffodus iawn i gael cymuned ysgol sydd mor gefnogol. Diolch!

## Diolch to Admiral Money!

I would like to thank the team from Admiral Money, led by one of the school's parents, for painting Pwyll classroom last week! We are very lucky to have such a supportive school community. Diolch!

## Bws Beicio Pwll Coch



Braf oedd gweld Bws Beicio Pwll Coch yn ail-ddechrau wythnos diwethaf! Mae'n hyfryd i weld cymaint o ddisgyblion yr ysgol yn dewis opsiynau teithio llesol i'r ysgol, gyda nifer yn defnyddio'r Bws Cerdded yn ddyddiol hefyd!

## Pwll Coch Cycle Bus

It was great to see the Pwll Coch Cycle Bus re-starting last week! It is wonderful to see so many pupils choosing active travel options, with many also using the Walking Bus on a daily basis!

## Disco Calan Gaeaf




Bydd Ffrindiau Pwll Coch yn cynnal disgo Calan Gaeaf ar brynhawn dydd Iau, 17/10/24. Gofynnwn eich bod yn aros gyda'ch plentyn os gwelwch yn dda.

## Halloween Disco

Ffrindiau Pwll Coch have arranged a Halloween disco on Thursday afternoon, 17/10/24. We kindly ask that you stay with your child please.

## Ymunwch â loteri Pwll Coch!!

https://www.yourschoollottery.co.uk/lottery/school/ysgol-gymraeg-pwll-coch

Mae Pwll Coch wedi ymuno â chynllun Your School Lottery. Am £1 yr wythnos mae cyfle i chi ennill gwobr wythnosol (enillydd o Bwll Coch bob wythnos) tra hefyd yn cyfrannu at gronfa'r Ffrindiau. Mae 40% o bob punt yn mynd tuag at yr ysgol a 30% tuag at y gronfa wobrau wythnosol. Po fwyaf sy'n chwarae po uchaf fydd y jacpot wythnosol! Mae cyfle hefyd i ennill y jacpot £25,000 ar draws Prydain! Mae ennillydd newydd bob dydd Sadwrn - ewch amdani!

## Join the Pwll Coch Lottery!

https://www.yourschoollottery.co.uk/lottery/school/ysgol-gymraeg-pwll-coch

Pwll Coch have joined the Your School Lottery scheme. For £1 per week you can be in with a chance to win a weekly prize (guaranteed winner from Pwll Coch each week) whilst also contributing to fundraising for the Ffrindiau. 40% of each pound goes towards the Ffrindiau and 30% towards the weekly prize fund. The more that play the higher the weekly jackpot will be. There is also a chance to win the £25,000 UK Jackpot! A winner is drawn every Saturday, so sign up now!

## Casgliad tuag at y Banc Bwyd

Mae aelodau'r Eco Bwyllgor yn gofyn am eich cefnogaeth gyda'n casgliad bwyd blynyddol tuag at Fanc Bwyd Caerdydd. Bydd aelodau'r pwyllgor yn helpu'r gwirfoddolwyr i lwytho'r holl fwydydd i'r fan ar fore dydd Gwener, 18/10/24. Gofynnwn yn garedig am eich cyfraniadau cyn y dyddiad yma.

## Collection towards the Food Bank

Members of the Eco Committee are asking for your support with our annual food collection for the Cardiff Food Bank. Committee members will help the volunteers load all the food into the van on Friday morning, 18/10/24. We kindly ask for your contributions before this date.

## Cwis Cymraeg!

Ar ddydd Mawrth y 15fed o Hydref, byddwn yn dathlu diwrnod 'Shwmae Su'mae! Mae pwyllgor Y Dreigiau yn awyddus i'ch gwahodd chi i'r Caffi Cymraeg am gwis i ddathlu Cymreitod yn ein hysgol. Croeso cynnes i bawb i'r ysgol am 2:15!

## Welsh Quiz!

On Tuesday the 15th of October, we will be celebrating Diwrnod 'Shwmae Su'mae'. The School's Welsh Language Charter Committee, Y Dreigiau, would like to invite you to our Caffi Cymraeg (Welsh Café) for a quiz and plenty of refreshments. You are all welcome to the school at 2:15!






https://learnwelsh.cymru/learning/course/244ee5d9-e748-ef11-991a-abd3a0abb585/

**Gwersi Cymraeg AM DDIM!**

Rydyn ni'n falch iawn i gyhoeddi ein bod wedi bod yn gweithio gyda Mudiad Meithrin er mwyn darparu gwersi Cymraeg bob dydd Mercher AM DDIM i rieni, gwarcheidwaid a holl aelodau cymuned yr ysgol!

Mae croeso i unrhyw oedolyn sydd â diddordeb fynychu- does dim rhaid bod eich plant yn ifanc iawn. Byddwch yn dysgu llawer o iaith i'w ddefnyddio â phlant o bob oed. Mae croeso i chi ddod â babi neu blant ifanc gyda chi, bydd teganau a llyfrau ar gael i'w difyrru. Mae croeso hefyd i aelodau'r teulu estynedig!

Mae'r sesiynau'n anffurfiol ac yn addas i ddechreuwyr. Mae'r arweinydd yn cyflwyno cyfarchion, sylfeini ynganu yn y Gymraeg a geirfa yn cynnwys lliwiau, rhifau, bwydydd, dillad, anifeiliaid a chanu caneuon a hwiangerddi. Gofynnwn eich bod yn defnyddio'r ddolen uchod er mwyn cofrestru!

**FREE Welsh Lessons!**

We are very proud to announce that we have been working with Mudiad Meithrin to provide FREE Welsh lessons, every Wednesday, for parents, guardians and all members of the school community!

Any interested adult is welcome to attend - your children don't have to be very young. You will learn a lot of language suitable to use with children of all ages. You are welcome to bring a baby or toddler with you. Toys and books will be available to entertain them. Members of the extended family are also welcome!

The sessions are informal and suitable for beginners. The leader will present greetings, Welsh pronunciations and vocabulary including colours, numbers, food, clothes, animals, songs and nursery rhymes. Please use the link above to register!

**Rhieni Blwyddyn 6 – Ceisiadau Ysgol Uwchradd**

Bydd cynrychiolydd o dim derbyniadau'r Sir yn cynnal cyfarfod i rieni a gwarchodwyr Blwyddyn 6 ar safle'r ysgol ar brynhawn dydd Iau, 10/10/24, am 3:30. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses neu am dalgylchoedd uwchradd y sir, bydd hwn yn gyfle da i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

**Year 6 Parents – High School Applications**

A representative from the Local Authority's admissions team will be holding a meeting for Year 6 parents and carers at school on Thursday afternoon, 10/10/24, at 3:30. If you have any questions about the process or about the county's secondary catchment areas, this will be a good opportunity to ask any questions you may have.

**Presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn**

Gyda hi'n ddechrau ar dymor newydd yn yr ysgol, hoffwn fanteisio ar y cyfle i'ch atgoffa am brydlondeb yn y boreau ac am bwysigrwydd presenoldeb da. Hoffwn dynnu eich sylw at y llythyr pwysig diweddar ar Class Dojo sydd yn esbonio prosesau'r ysgol. Diolch yn fawr am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus.

**Your child's attendance and punctuality**

With the start of a new school term, I would like to take the opportunity to remind you about punctuality in the mornings and the importance of good attendance. I would like to draw your attention to the recent important letter on Class Dojo which explains the school's processes. Thank you very much for your continued cooperation and support.

**Ymweliad ESTYN, 14/10/24**

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu tîm o arolygwyr Estyn i'r ysgol ar w/d 14/10/24 i weld yr holl waith da sydd yn digwydd yn yr ysgol. Bydd cyfle i rieni a gwarcheidwaid i gwrdd â'r arolygwyr ar ddydd Llun, 14/10/24, am 3:30. Byddwn wir yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau gwerthfawr. Diolch, o flaen llaw, am eich cefnogaeth. Mae dolen ar gyfer holiadur i rieni a gwarcheidwaid ar Class Dojo. Bydd yr holiadur yn cau ar ddydd Sul!

**ESTYN Inspection, 14/10/24**

We are very much looking forward to welcoming a team of Estyn inspectors to the school on w/c 14/10/24 to see all the good work that is happening in the school. There will be an opportunity for parents and guardians to meet the inspectors on Monday, 14/10/24, at 3:30. We would very much appreciate your valuable contributions. Thank you, in advance, for your support. There is a link to a questionnaire for parents and guardians on Class Dojo. The questionnaire will close this Sunday!

| **Dyddiadau HMS 2024-25 INSET Dates** |
|---|
| Dydd Llun / Monday 06/01/25 |
| Dydd Llun / Monday 03/03/25 |
| Dydd Llun / Monday 21/07/25 |
| Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2024-25, cliciwch yma!<br>For a list of 2024-25 term dates, click here! |

| **Teithiau Preswyl 2024-25 Residential Trips** |
|---|
| Blwyddyn 6 – Llangrannog<br>21/10/24-25/10/24 |
| Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd/ Cardiff Bay<br>16/01/25-17/01/25 |

| **Diwrnodau di-wisg ysgol / Non-uniform days** | **Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement** | **Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events** | **Hyfforddiant mewn Swydd/ INSET Dates** |
|---|---|---|---|
| **15/10/24**<br>Lliwiau Cymru<br>Diwrnod Shwmae/ Su'mae<br>Welsh Colours | **11/09/24**<br>Noson Cwrdd â'r Athro<br>3:30-4:00<br>Meet the Teacher | **13/09/24**<br>Ffotograffau Unigol<br>Colorfoto<br>Individual Photographs | |
| **18/10/24**<br>Gwisgwch goch i hiliaeth<br>Wear Red (Show Racism the Red Card) | **18/09/24**<br>Gwersi Cymraeg yn dechrau<br>2:00-3:00<br>Welsh lessons begin | **17/09/24**<br>Cyngherdd WNO Bl3 a Bl4<br>WNO Concert Year 3 & Year 4 | |
| **25/10/24**<br>Diwrnod ola'r hanner tymor<br>Last day of the half term | **27/09/24**<br>Coffi Macmillan<br>2:15<br>Macmillan Coffee | **18/09/24-20/09/24**<br>Taith Breswyl Bl5<br>Year 5 Residential | |
| **11/11/24**<br>Gwisgwch sanau od!<br>Wear odd socks! | **08/10/24**<br>Noson Agored Glantaf (Rhieni Bl6)<br>17:00 | **27/09/24**<br>Diwrnod STEM Glantaf<br>Bl6 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Glantaf Open Evening (Year 6 Parents) | Glantaf STEM Day Year 6 | |
| **15/11/24**<br>Plant mewn Angen<br><br>Children in Need | **15/10/24**<br>Cwis Shwmae i rieni!<br><br>2:15<br><br>Shwmae Quiz for parents | **01/10/24**<br>Pêl-droed bechgyn 5&6<br><br>Year 5 & Year 6 Boys Football | |
| **12/12/24**<br>Diwrnod siwmperi Nadolig<br><br>Christmas jumper day | **11/11/24-14/11/24**<br>Nosweithiau Rhieni<br><br>Parents' Evening | **07/10/24**<br>Cogurdd Bl4-Bl6<br><br>Year 4 – Year 6 Cogurdd | |
| **20/12/24**<br>Diwrnod ola'r tymor<br><br>Last day of term | **04/12/24**<br>Cipolwg Cynnydd<br><br>3:30-4:30<br><br>Progress Pit-stop meetings | **08/10/24**<br>Taith Bl1&2 i Gaerdydd<br><br>Year 1&2 Cardiff Trip<br><br>Taith 3&4 i Gastell Caerdydd<br><br>3&4 trip to Cardiff Castle | |
| | | **09/10/24**<br>Cerddorfa Glantaf Bl5 & Bl6<br><br>Glantaf Orchestra Year 5 & Year 6 | |
| | | **10+11/10/24**<br>Taith 3&4 i'r Deml Hindwaidd<br><br>Year 3&4 trip to the Hindu Temple | |
| | | **21/10/24-25/10/24**<br>Taith Preswyl Bl6 Llangrannog<br><br>Year 6 Residential Llangrannog | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **05/11/24**<br>Pêl-droed cymysg Bl4<br><br>Mixed Football Year Year 4 | |
| | | **05/11/24**<br>Pêl-droed merched Bl5 & Bl6<br><br>Girls Football Year 3 & Year 4 | |
| | | **11/11/24**<br>Chwistrelliadau Ffliw<br><br>Flu Nasal Spray | |
| | | **19/11/24**<br>Pantomeim Bl3 – Bl6<br><br>Year 3 – Year 6 Pantomime | |
| | | **06/12/24**<br>Pêl-rwyd Bl5 & Bl6<br><br>Year 5 & Year 6 Netball | |




